# Cwestiynau am swyddogaethau'r Comisiwn

01. Prif rôl y Comisiwn, a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, yw rhoi i'r Senedd yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i alluogi'r Senedd i weithredu.

02. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi swyddogaethau eraill – er enghraifft talu cyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau, a hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system etholiadol a'r system o lywodraeth ddatganoledig – i'w harfer gan y Comisiwn.

## Atebolrwydd y Comisiwn

03. Mae'r Comisiwn yn atebol i'r Senedd am y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Mater i'r Senedd a'i phwyllgorau yw bodloni ei hun bod y Comisiwn yn gweithredu'n ddarbodus ac yn gyfrifol. Y Comisiwn sy'n dewis sut i ymgymryd â'r ddyletswydd o roi'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau angenrheidiol i'r Senedd.

## Cwestiynau am swyddogaethau'r Comisiwn

04. O bryd i'w gilydd, mae'r Aelodau'n gofyn cwestiynau am wasanaethau neu gyfleusterau penodol a ddarperir gan y Comisiwn.

05. Er mwyn cael atebion i'r ymholiadau hyn, mae'r Aelodau yn eu cyfeirio drwy unrhyw Gomisiynydd, neu drwy ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, ar unrhyw adeg. Byddwn yn ceisio atebion ac yn eu rhoi cyn gynted â phosibl.

## Cwestiynau Llafar i'r Comisiwn yn y Cyfarfod Llawn

06. Caiff Aelodau'r Senedd gyflwyno cwestiynau llafar i'r Comisiwn ar unrhyw fater ynghylch cyfrifoldebau'r Comisiwn. Rhaid cyflwyno Cwestiynau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddynt gael eu hateb – caiff amser ei neilltuo unwaith ym mhob pedair wythnos fusnes.

## Cwestiynau ysgrifenedig y Comisiwn

07. Caiff yr Aelodau gyflwyno cwestiynau i'r Comisiwn eu hateb yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg, ar unrhyw fater ynghylch cyfrifoldebau'r Comisiwn.

## Cwestiynau Brys i'r Comisiwn a Dadleuon Brys ynghylch y Comisiwn

08. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu gofyn cwestiynau brys i'r Comisiwn. Bernir bod cwestiwn yn un brys os bydd y Dirprwy Lywydd yn fodlon bod y cwestiwn o bwys brys i'r cyhoedd.

## Craffu ar y Comisiwn

09. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn lunio strategaeth gyllideb flynyddol sy'n nodi ei anghenion o ran adnoddau a'i gynlluniau buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Caiff hyn ei drafod gan y Pwyllgor Cyllid ac yna ei ddadlau yn y Cyfarfod Llawn cyn iddo gael ei ymgorffori'n ffurfiol yn y cynnig cyllidebol blynyddol a gyflwynir o dan Adran 125 o'r Ddeddf.

10. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, felly gellir galw ar y Prif Weithredwr a'r Clerc, fel ei Brif Swyddog Cyfrifyddu, i roi tystiolaeth ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifon y Comisiwn neu unrhyw adroddiad sy'n ymwneud â'r Comisiwn a osodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Penderfynu ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau

11. Ers 2011, mae cyflogau a chostau eraill yr Aelodau wedi'u pennu gan y Bwrdd Taliadau, a sefydlwyd o dan Fesur Senedd (Taliadau) 2010.

12. Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n annibynnol ar y Senedd a'r Comisiwn. Mae penderfyniadau’r Bwrdd yn derfynol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i gadarnhad na chymeradwyaeth Comisiwn y Senedd na’r Senedd.

13. O dan y Mesur, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am osod Penderfyniadau'r Bwrdd gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## Pensiynau

14. Mae gan y Bwrdd Taliadau gyfrifoldeb cyffredinol dros reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Mae'n penodi'r cadeirydd annibynnol ar gyfer y Bwrdd Pensiynau ac yn penodi cynrychiolwyr y Comisiwn a'r Aelodau i'r Bwrdd Pensiynau'n ffurfiol.